GWNEUD PETHAU'N IAWN!

Pecyn Cymorth i helpu i Godi Ymwybyddiaeth a Hybu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

"Y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn yw'r ddogfen fyw ddisglair honno sy'n cadw hawliau pob plentyn heb eithriad i fywyd o urddas a hunangyflawniad."
Nelson Mandela

"Mae gan bawb hawl i leisio'i farn ond mae hawl rhai pobl a rhai grwpiau i gael eu gwrando yn gallu cael ei gwrthod."
Aelod o grŵp Turn On The Rights, 17 oed

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Cynnwys

Adran 1 – Y Cefndir

Neges gan y Gweinidog

Adran 2 – Gweithdai Codi Ymwybyddiaeth

2.1 Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth i Oedolion sy'n Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc

2.2 Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth i Blant

2.3 Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth i Bobl Ifanc

2.4 Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth i Rieni a Gofalwyr

2.5 Adnoddau Gweledol i ategu'r gweithdai

Adran 3 - Deunyddiau Cefndir

Yr CCUHP – yn blaen

Adran 4 – Adnoddau a Lluniau'r Gweithdy

Adran 5 – Adnoddau a argymhellir ynghylch yr CCUHP

Adran 6 – Gwefannau Gwerth eu Gweld

Adran 1
Y Cefndir

Neges gan y Gweinidog

Fel y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau rwy'n gwbl ymrwymedig i wneud Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn realiti i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Mae Erthygl 42 o'r Confensiwn yn dweud y dylai pob Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn ac un o'r prif flaenoriaethau sydd gennyn ni yng Nghymru yw codi ymwybyddiaeth o'r CCUHP ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion er mwyn i bawb ddeall sut y gall yr CCUHP wneud eu bywydau'n well, a sut y gall plant a phobl ifanc sicrhau eu hawliau drwy'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cael.

Mae'r deunyddiau hyn ar gyfer y gweithdai yn gyflwyniad i'r CCUHP ac yn fan cychwyn yn unig ar nifer o adnoddau gwahanol rydyn ni'n gobeithio eu datblygu dros y misoedd nesaf. Mae'r gweithdai wedi'u datblygu ac wedi'u treialu gyda chyfraniadau gan blant, pobl ifanc, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r partneriaid rydyn ni'n cydweithio â nhw. Mae eu cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi sicrhau bod y gweithdai'n addas at eu diben ac i'r gynulleidfa arfaethedig.

O ganlyniad i'n gwaith parhaus ni yn y maes hwn, a gwaith ein partneriaid, dros amser rwy'n gobeithio gweld gwelliant arwyddocaol ar y lefel bresennol o ymwybyddiaeth ymhlith plant, pobl ifanc, teuluoedd a'r holl weithlu plant a phobl ifanc, gan gynnwys athrawon a staff eraill yr ysgolion.

Gobeithio y bydd yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol ac yn ddifyr ichi ac y byddan nhw'n gwneud rhywfaint i'n helpu i wireddu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn llawn.

Jane Hutt AC, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Yr CCUHP yng Nghymru

Aeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ati yn 2004, gyda chefnogaeth ehangach ar draws pob plaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, i fabwysiadu'r CCUHP yn sail ar gyfer ei holl bolisïau i blant a phobl ifanc. Ar ôl hynny, cafodd erthyglau'r Confensiwn eu trosi gan Gweithredu'r Hawliau yn 7 Nod Craidd er mwyn sicrhau bod gwaith i gynllunio gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn fwy cydlynol.

Mae Erthygl 42 o'r Confensiwn yn dweud y dylai pob Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.

Yn unol â'r erthygl hon, un o amcanion allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i hybu ymhlith plant, pobl ifanc, rhieni, teuluoedd, oedolion ac unrhyw un sy'n gweithio neu sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Adran 2
Gweithdai Codi Ymwybyddiaeth

2.1 Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth i Oedolion sy'n Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc

2.2 Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth i Blant

2.3 Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth i Bobl Ifanc

2.4 Gweithdy Codi Ymwybyddiaeth i Rieni a Gofalwyr

2.5 Adnoddau Gweledol i ategu'r gweithdai

Adran 3
Deunyddiau Cefndir

Yr CCUHP – yn blaen

Mae'r papur cefndir hwn yn cyd-fynd â'r gyfres o weithdai sydd wedi'u datblygu i godi ymwybyddiaeth o'r CCUHP a'i hybu.

Argymhellir yn gryf y dylai'r hwyluswyr ddarllen hyn cyn rhoi un o'r gweithdai codi ymwybyddiaeth

Gallai Yr CCUHP – yn blaen gael ei ddefnyddio hefyd yn rhan annatod o'r gweithdai ar gyfer oedolion, rhieni neu bobl ifanc o oedran uwchradd.

Adran 4
Adnoddau a Lluniau'r Gweithdy

Ewch at y pdf perthnasol yn y pecyn cymorth

Adran 5
Adnoddau A Argymhellir Ynghylch Yr Ccuhp

Ewch at y pdf perthnasol yn y pecyn cymorth

Adran 6
Gwefannau Gwerth Eu Gweld

Ewch at y pdf perthnasol yn y pecyn cymorth